
# BRAD CARTER

## CLWB SGWBA-BLYMIO RHONDDA

Mae gan Brad dair rôl wirfoddoli yng Nghlwb Sgwba-blymio Rhondda. Fel Swyddog Hyfforddi, mae Brad yn gyfrifol am yr holl hyfforddiant sy'n cael ei gynnal, o ddysgu aelodau newydd sut i blymio i wella sgiliau plymwyr medrus. Fel Uwch Hyfforddwr, mae Brad yn sicrhau bod modd i'r clwb gynnig rhagor o gyfleoedd i aelodau ddysgu sgiliau newydd. Mae bob amser yn awyddus i aelodau wella eu sgiliau plymio cyffredinol a/neu eu sgiliau plymio technegol. Fel Swyddog Plymio, mae'n sicrhau bod pob plymiwr yn dilyn arferion plymio diogel.

Mae Brad hefyd yn trefnu ac yn cydlynu'r rhan fwyaf o deithiau plymio'r clwb, gan drefnu cychod, llety a phrydau, ac mae capteiniaid cychod yn cysylltu â fe er mwyn dewis safleoedd plymio addas. Ers ymuno â'r clwb a phwyllgor nifer o flynyddoedd yn ôl, mae'r clwb wedi mynd o nerth i nerth, a hynny'n bennaf o ganlyniad i'w ymroddiad.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## IONAWR 2025